COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI078

Amseru: Arferol

TEITL: Adleoli Uned Cynnal Cerbydau Hwlffordd i safle Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gerllaw.

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:
Gwasanaethau Fflyd/Ystadau

Crynodeb Gweithredol:
Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect Ystadau ym mis Mawrth, cyflwynwyd cynnig a wnaed i ni gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y cynnig ar gyfer prosiect cydweithio lle y byddai'n gwasanaeth Uned Cynnal Cerbydau yn Hwlffordd yn cael ei gyd-leoli â'r cyfleuster Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drws nesaf. Cyhoeddodd aelodau bwrdd gytundeb mewn egwyddor ar yr amod bod yr Uwch-arolygydd lleol, Rheolwr y Gwasanaethau Fflyd a'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cytuno. Ymgynghorwyd â phob aelod staff. Rhoddwyd cynlluniau a chostau iddynt, ac maen nhw'n cytuno. Nid yw'r gost yn fawr o'i chymharu â'r buddsoddiad sylweddol sydd angen ar gyfer y safle cyfredol. Mae'n cynyddu effeithlonrwydd gweithredol, yn lleihau'r perygl o ran pobl yn gweithio ar ben eu hun, ac yn cynyddu cadernid drwy rannu gwaith â thechnegwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru pan fod angen.
Cynigir defnyddio'r lle gwag ar ein safle ar gyfer Storfa Eiddo Gyfunol Sir Benfro.

Argymhelliad:
Gofynnir i'r Comisiynydd adolygu'r wybodaeth uchod a chymeradwyo penderfyniad i barhau fel y crynhoir.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod~~ / Rwy'n nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 14/6/2018